# Newyddion Ysgol Nefyn – Hydref 2009

Diolch i'r holl fyfyrwyr sydd yma'n ein helpu'r tymor hwn-
Manon Roberts- (Coleg Meirion Dwyfor)- Dydd Llun a Dydd Mawrth, Rebeca Louise Jones- (Coleg Meirion Dwyfor)- Dydd Iau a Dydd Gwener, Gwyneth Williams- (Hyfforddiant Gwynedd)- Bob diwnrod, Hayley Jane Griffith o Brifysgol Cymru Bangor- Blwyddyn 2/3 a Robert Parkinson o Brifysgol Cymru Bangor- Blwyddyn 4.
Mae'r Parchedig Robert Roberts ac Anti Nia o Goleg y Bala yn ymuno â ni fel arfer i'r gwasanaethau.

Roedd Mark Whincup a'i driciau 'Hud a Lledrith' yn werth ei weld. 'Paid cyffwrdd- d'wed' oedd ei destun ac roedd yn ein cynghori i gadw draw oddi wrth gyffuriau.

Mae disgyblion Blwyddyn 5 yn edrych ymlaen i ymweld â Fferm Mr Gwyndaf Williams yn nhymor y Gwanwyn. Bu Mrs Glenys Williams yno'r wythnos olaf ar ymweliad a bydd bob math o bethau i'w gwneud yno i ddiddori'r plant.

Bu Anti Lis yma'n sgwrsio gyda disgyblion Blwyddyn 5 am edrych ar ôl y gymuned. Fe drefnwyd taith efo Anti Lis a Anti Llinos y Cynghorydd, o gwmpas Nefyn i weld a ydym yn edrych ar ôl y dref yn ddigon da. Mae hefyd am ddod i siarad am beryglon noson Calan Gaeaf a sut i ymddwyn efo hen bobl.

Teithiodd disgyblion Blwyddyn 6 i Gae'r Gors i ddysgu mwy am yr awdures Kate Roberts a theithiodd Blwyddyn 4 i Gastell Caernarfon i ddysgu am un o'n hadeiladau hanesyddol pwysig.

Diolch yn fawr i Yncl John Rhys am adrodd amdano ei hun yn cadw gwenyn. Diddorol dros ben oedd y bore yn ei gwmni ym Mlwyddyn 5.

Mi fuom yn gwneud bob math o bethau yn ystod 'Pythefnos Bwyd Prydeinig' yn Ysgol Nefyn-

- Daeth Sian Davies o Hufenfa De Arfon i'r ysgol at ddosbarth Blwyddyn 6 i ddangos DVD am y math o gynnyrch sy'n cael ei gynhyrchu yn yr hufenfa. Cawsom gyfle i holi Sian Davies am y prosesau cynhyrchu yn ogystal â chael blasu caws 'Monteray Jack'.
- Blwyddyn 6 oedd yn gyfrifol am wasanaeth ysgol yn ystod yr wythnos, a'u thema oedd 'Bwyd;. Buon nhw hefyd yn cyflwyno'u gwasanaeth i Glwb yr Henoed yn Y Ganolfan.
- Blwyddyn 4 aeth i ymweld â Siop Londis yn Nefyn er mwyn cael gweld sut oedd Mr Elfed Roberts a'i staff yn paratoi prydau poeth, brechdanau a chigoedd ar gyfer eu gwerthu yn y siop.
- Bu Dosbarth Babanod yn casglu mafon o ardd yr ysgol er mwyn creu a mwynhau gyda chymorth.

Roedd gan Yncl Dilwyn o'r Archifdy bob math o luniau a hanesion diddorol iawn am Nefyn 'ddoe' pan dreuliodd fore efo ni.